Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Economi, Masnach a Materion Gwledig**

# Adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Lles Anifeiliaid (Mewnforio Cŵn, Cathod a Ffuredau)

Gorffennaf 2025

## 1. Cefndir

**1.** Cyflwynwyd y Bil Lles Anifeiliaid (Mewnforio Cŵn, Cathod a Ffuredau) ("y Bil") yn Nhŷ'r Cyffredin ar 16 Hydref 2024.[1]

**2.** Mae enw hir y Bil yn nodi ei ddiben fel a ganlyn:

> *"A Bill to make provision for and in connection with restricting the importation and non-commercial movement of dogs, cats and ferrets."*

**3.** Mae Nodiadau Esboniadol y Bil yn esbonio y gall cŵn, cathod a ffuredau ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig fel mewnforion masnachol neu fel anifeiliaid anwes sy'n teithio'n anfasnachol.[2] Mae gofynion llymach yn gymwys i fewnforion masnachol nag i symudiadau anfasnachol.

**4.** Mae'r Nodiadau Esboniadol yn datgan bod tystiolaeth wedi dangos bod symudiadau masnachol yn aml yn cael eu cuddio fel symudiadau anfasnachol er

[1] Senedd y DU, y Bil Lles Anifeiliaid (Mewnforio Cŵn, Cathod a Ffuredau) [Saesneg yn unig]
[2] Y Bil Lles Anifeiliaid (Mewnforio Cŵn, Cathod a Ffuredau), Nodiadau Esboniadol [Saesneg yn unig]

mwyn osgoi'r gofynion llymach hyn. Yn benodol, mae'r Nodiadau Esboniadol yn cyfeirio at bryderon ynghylch marchnad sy'n dod i'r amlwg, gan gynnwys mewnforio cŵn a chathod sy'n drwm o rai bach, a'r rhai sydd wedi'u hanffurfio (cŵn â chlustiau neu gynffonau wedi'u tocio a chathod â'u hewinedd wedi'u tynnu).

**5.** Mae'r Bil yn gwneud darpariaeth i gyfyngu ar fewnforio cŵn, cathod a ffuredau yn fasnachol a'u symud yn anfasnachol i mewn i'r Deyrnas Unedig o drydydd gwledydd ar sail lles anifeiliaid. Cynigiwyd darpariaeth debyg yn flaenorol fel rhan o'r Bil Lles Anifeiliaid (Anifeiliaid a Gedwir) yn 2021, a fethodd ym mis Mai 2023.

**6.** Mae Rheol Sefydlog 29.1 yn darparu bod rhaid i Weinidogion Cymru osod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol pan fo Bil gan Senedd y DU yn gwneud darpariaeth o ran Cymru sy'n rhoi sylw i faterion datganoledig.

**7.** Ar 21 Mai 2025, gosododd Huw Irranca-Davies AS, y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig ("yr Ysgrifennydd Cabinet"), Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol mewn cysylltiad â'r Bil ("y Memorandwm").[3]

**8.** Ar 4 Mehefin, cyfeiriodd y Pwyllgor Busnes y Memorandwm i Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, a'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad yw 18 Gorffennaf 2025.[4]

## 2. Y Memorandwm

**9.** Mae paragraffau 3 a 4 o'r Memorandwm yn nodi amcanion polisi'r Bil. Mae paragraff 4 yn nodi:

> *"… nod y Bil yw mynd i'r afael â smyglo cŵn bach yn anghyfreithlon ac â lefelau cynyddol o symud anifeiliaid anwes mewn ffordd lle nad yw'r safonau isaf sy'n dderbyniol o ran eu lles yn cael eu bodloni. Mae'r materion hyn yn codi pryderon sylweddol ynghylch iechyd a lles*

[3] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: Y Bil Lles Anifeiliaid (Mewnforio Cŵn, Cathod a Ffuredau), Mai 2025
[4] Y Pwyllgor Busnes, Amserlen ar gyfer ystyried: Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Lles Anifeiliaid (Mewnforio Cŵn, Cathod a Ffuredau), Mehefin 2025

> *anifeiliaid o ran sut yr eir ati i gael gafael arnynt, a sut y maent yn cael eu cadw, eu trin a'u cludo."*[5]

## Y darpariaethau y ceisir cydsyniad ar eu cyfer

**10.** Mae paragraffau 7 i 32 yn nodi'r darpariaethau yn y Bil y mae Llywodraeth Cymru yn ystyried bod angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer.

**11.** Yn benodol, mae'r Memorandwm yn darparu bod angen cydsyniad ar gyfer cymalau 1, 2, 4, 5, 6 a 7 yn eu cyfanrwydd, ac ar gyfer cymalau 3(1) a 3(3), a chymal 8(5), i'r graddau y maent yn gymwys i Gymru.

**12.** Diwygiwyd y Bil yn y Pwyllgor Biliau Cyhoeddus ar 14 Mai 2025. Ni chafodd y prif ddarpariaethau eu diwygio'n sylweddol, ond cafodd cymalau penodol eu haildrefnu. Ar ôl diwygio'r Bil, nid yw rhifau'r cymalau yn y fersiwn ddiweddaraf o'r Bil yn cyd-fynd yn uniongyrchol â rhifau'r cymalau yn y Memorandwm. Pan fo'n berthnasol, tynnir sylw at hyn yn y crynodeb o'r cymalau isod.

### Cymal 1

**13.** Mae'r cymal hwn yn galluogi awdurdod cenedlaethol priodol, sy'n cynnwys Gweinidogion Cymru (gweler cymal 3), i wneud rheoliadau ynghylch dod â chŵn, cathod neu ffuredau i mewn i'r Deyrnas Unedig at ddiben hyrwyddo eu lles.

**14.** Mae is-adrannau (3) a (4) yn sicrhau bod rhaid i'r rheoliadau cyntaf a wneir yng Nghymru, Lloegr a'r Alban o dan is-adran (1) mewn perthynas â chŵn neu gathod wahardd dod â chŵn neu gathod i mewn i'r rhan honno o'r Deyrnas Unedig pan fônt:

- o dan 6 mis oed,
- yn fwy na 42 o ddiwrnodau yn dorrog,
- neu wedi bod yn destun anffurfiadau heb eu hesemptio.[6]

---

[5] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: Y Bil Lles Anifeiliaid (Mewnforio Cŵn, Cathod a Ffuredau), Mai 2025

[6] Mae'r diffiniad o "mutilation" yn y Bil yn adlewyrchu'r diffiniad yn Neddf Lles Anifeiliaid 2006 - sef ci neu gath sydd wedi cael triniaeth a oedd yn cynnwys ymyrryd â'i feinweoedd neu ei meinweoedd sensitif neu ei strwythur esgyrn ac eithrio at ddiben ei driniaeth neu ei thriniaeth feddygol.

## Cymal 2

**15.** Mae'r cymal hwn yn nodi darpariaethau atodol mewn perthynas â'r pŵer gwneud rheoliadau yng nghymal 1. Mae'n cynnwys rhestr nad yw'n gynhwysfawr o ddarpariaethau a all fod yn ofynnol yn y rheoliadau, megis rhoi swyddogaethau i bersonau penodedig, darpariaethau mewn perthynas â phwerau mynediad, arolygu, chwilio, atafaelu a chadw.

## Cymal 3

**16.** Mae'r cymal hwn yn diffinio "national authority" at ddibenion cymal 1. Hwn yw'r Ysgrifennydd Gwladol, a Gweinidogion Cymru i'r graddau y mae ganddynt gymhwysedd deddfwriaethol.

**17.** Mae'r cymal hwn yn creu pŵer cydredol plws. Mae cymal 3(3) yn caniatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau o dan gymal 1 y gellid eu gwneud fel arall gan Weinidogion Cymru, ar yr amod bod Gweinidogion Cymru yn rhoi eu cydsyniad.

**18.** Yn gyffredinol, mae cyfyngiadau yn Atodlen 7B i *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* ("Deddf 2006") yn atal y Senedd rhag dileu, heb gydsyniad Llywodraeth y DU, swyddogaeth sydd gan un o Weinidogion y Goron ac sy'n cael ei harfer yn gydredol neu ar y cyd â Gweinidogion Cymru.

**19.** Fodd bynnag, mae is-adrannau (5) i (8) o gymal 3 yn mewnosod yr hyn a elwir yn gyffredin yn 'eithriadau' i'r cyfyngiadau hyn. Yn y bôn, mae'r eithriadau hyn yn amddiffyn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd drwy negyddu'r cyfyngiad posibl ar gymhwysedd a all godi mewn cysylltiad â phwerau cydredol.

**20.** Yn benodol, mae'r Bil yn datgymhwyso'r cyfyngiadau perthnasol mewn cysylltiad â'r pwerau cydredol yn y Bil hwn drwy ychwanegu'r Ddeddf yn y dyfodol at y rhestrau o ddeddfiadau ym mharagraffau 9(8)(b) ac 11(6)(b) o Atodlen 7B i Ddeddf 2006. Bydd hyn yn caniatáu i'r Senedd newid y trefniadau cydredol sy'n ymwneud â materion datganoledig o dan y Bil heb fod angen cydsyniad Llywodraeth y DU.

## Cymal 4

**21.** Mae cymal 4 fel y cyfeirir ato yn y Memorandwm yn ymwneud â 'datgymhwyso rheolau anfasnachol mewn achosion penodol'. Mae'r cymal hwn bellach yn gymal 5 yn y fersiwn ddiweddaraf o'r Bil. Er bod gwelliannau penodol

wedi'u gwneud i'r ddarpariaeth, mae'r ddwy ddarpariaeth yn debyg yn eu hanfod.

**22.** Mae'r cymal hwn yn diwygio Rheoliad (EU) Rhif 576/2013 (y "Rheoliad Teithio Anifeiliaid Anwes") i ddarparu nad yw'r rheolau sy'n berthnasol i symud cŵn, cathod a ffuredau yn anfasnachol i mewn i Brydain Fawr yn gymwys mewn sefyllfaoedd penodol.

**23.** Yn benodol, mae'r cymal hwn yn diwygio'r Rheoliad Teithio Anifeiliaid Anwes i ddarparu nad yw symud cŵn, cathod neu ffuredau i mewn i Brydain Fawr yn gyfystyr â 'symud anfasnachol' pan fo cyfanswm o fwy na phum anifail o'r fath fesul cerbyd modur, neu gyfanswm o dri fesul pob teithiwr ar droed neu fesul pob teithiwr awyr, ar unrhyw adeg yn ystod y symud. Felly, os oes mwy na phum anifail mewn cerbyd neu fwy na thri anifail gyda theithiwr ar droed, ystyrir bod hynny'n gyfystyr â symud masnachol, a bydd gofynion llymach yn gymwys.

**24.** Mae is-adran (5) hefyd yn mewnosod darpariaeth newydd yn y Rheoliad Teithio Anifeiliaid Anwes sy'n darparu nad yw symud cŵn, cathod neu ffuredau i mewn i Brydain Fawr yn gyfystyr â symud anfasnachol oni bai bod yr anifail naill ai yng nghwmni ei berchennog neu yng nghwmni person a awdurdodwyd gan y perchennog, a bod y perchennog wedi dod i mewn i Brydain Fawr neu y disgwylir iddo ddod i mewn i Brydain Fawr o fewn pum niwrnod i symud yr anifail.

## Cymal 5

**25.** Mae cymal 5 fel y'i disgrifir yn y Memorandwm yn cyfeirio at bennawd y cymal 'Cymhwyso'r rheolau masnachol mewn ffordd gyfatebol'. Erbyn hyn, hwn yw cymal 6 yn y fersiwn ddiweddaraf o'r Bil. Mae'r ddau gymal yn debyg yn eu hanfod.

**26.** Mae'r cymal hwn yn diwygio'r rheoliadau sy'n gymwys i fewnforio cŵn, cathod a ffuredau yn fasnachol i wneud diwygiadau sy'n ganlyniadol i'r darpariaethau a wneir o dan gymal 4 o'r Bil.

## Cymal 6

**27.** Mae cymal 6 fel y'i disgrifir yn y Memorandwm yn cyfeirio at bennawd y cymal 'darpariaeth ganlyniadol'. Erbyn hyn, hwn yw cymal 7 yn y fersiwn ddiweddaraf o'r Bil. Mae'r cymal hwn yn gwneud darpariaethau canlyniadol penodol mewn cysylltiad â'r Bil.

### Cymal 7

**28.** Mae cymal 7 fel y'i disgrifir yn y Memorandwm yn cyfeirio at bennawd y cymal 'rheoliadau'. Ar ôl diwygio'r Bil, mae'r cymal hwn wedi'i aildrefnu a'i symud i gymal 4 newydd. Er bod y ddarpariaeth wedi'i diwygio, mae'n debyg yn ei hanfod.

**29.** Mae'r cymal hwn yn nodi'r weithdrefn ar gyfer gwneud rheoliadau yn Senedd y DU ac yn y deddfwrfeydd datganoledig. Mae'r pwerau gwneud rheoliadau yn arferadwy drwy offeryn statudol. Ac eithrio'r pŵer i bennu ffi mewn perthynas â chais am drwydded (sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol), mae'r holl reoliadau eraill a wneir o dan gymal 1 yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol.

### Cymal 8

**30.** Mae hon yn ddarpariaeth gyffredinol sy'n nodi rhychwant tiriogaethol y Bil, darpariaethau sy'n ymwneud â chychwyn ac enw byr y Bil.

## Safbwynt Llywodraeth y DU o ran yr angen am gydsyniad

**31.** Mae'r Memorandwm yn nodi bod Llywodraeth y DU "o'r farn bod darpariaethau'r Bil o fewn cymhwysedd Senedd Cymru ac mae'n cytuno bod angen Cydsyniad y Senedd".[7]

**32.** Yn gyffredinol, cedwir gwahardd a rheoleiddio mewnforion ac allforion yn ôl ar gyfer Senedd y DU o dan baragraff 71 o Atodlen 7A i Ddeddf 2006. Fodd bynnag, mae eithriad i'r mater a gedwir yn ôl mewn cysylltiad â gwahardd a rheoleiddio symud anifeiliaid i mewn i Gymru ac allan o Gymru at ddibenion diogelu iechyd anifeiliaid a lles anifeiliaid.

## Rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn ar gyfer Cymru yn y Bil

**33.** Mae paragraff 35 yn datgan:

> *"Mae lles anifeiliaid yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru, ac mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn briodol ymdrin â'r darpariaethau hynny yn y Bil hwn am resymau sy'n ymwneud ag*

[7] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: Y Bil Lles Anifeiliaid (Mewnforio Cŵn, Cathod a Ffuredau), Mai 2025, paragraff 33

> *amseru ac er mwyn sicrhau cydlyniant, sy'n arbennig o bwysig mewn perthynas â gorfodi ar draws ffiniau a rheolaethau ffiniau."*

**34.** Mae'r Memorandwm yn parhau i nodi cefnogaeth Llywodraeth Cymru i'r Bil fel y'i drafftiwyd. I gloi, nodir barn yr Ysgrifennydd Cabinet y dylai'r Senedd roi ei chydsyniad i'r Bil:

> *"Rwyf o'r farn ei bod yn briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn yn y Bil hwn ar gyfer y DU er mwyn bwrw ymlaen â materion pwysig ac uchel eu proffil sy'n gysylltiedig â lles anifeiliaid. Rwyf, felly, yn argymell y dylai'r Senedd gefnogi'r cynigion a rhoi ei chydsyniad."*[8]

# 3. Ystyriaeth y Pwyllgor

**35.** Trafododd y Pwyllgor y Memorandwm yn ei gyfarfod ar 2 Gorffennaf 2025.[9]

**36.** Mae'r Pwyllgor yn nodi'r rhesymau a roddwyd gan Lywodraeth Cymru dros wneud y darpariaethau hyn i Gymru mewn Bil gan Senedd y DU, ac mae'n gefnogol iawn i'r amcanion polisi.

**Casgliad 1.** Ni chanfu'r Pwyllgor unrhyw reswm dros wrthwynebu i'r Senedd gytuno ar y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol sy'n gysylltiedig â'r Memorandwm.

**37.** Mae'r Pwyllgor yn nodi'r pwerau gwneud rheoliadau o fewn y Bil a bod y rhan fwyaf ohonynt yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol. Fodd bynnag, o ystyried bod llai o waith craffu yn cael ei wneud ar is-ddeddfwriaeth, byddai'r Pwyllgor yn awgrymu bod sylw arbennig yn cael ei roi i unrhyw ganlyniadau anfwriadol a allai godi o ganlyniad i reoliadau a wneir o dan y Bil hwn. Mae'r Pwyllgor yn arbennig o bryderus am anifeiliaid a fyddai fel arfer yn cael eu gwahardd oherwydd anffurfio, ond y mae esboniad dilys amdanynt, h.y. am resymau iechyd, neu am fod yr anffurfio wedi'i wneud gan berchennog camdriniol blaenorol ond bod yr anifail bellach wedi'i ailgartrefu. Er enghraifft, ni ddylai unrhyw reoliadau a wneir o dan y Ddeddf hon atal teulu a oedd wedi mabwysiadu anifail â chlustiau wedi'u tocio o sefydliad achub go iawn rhag mynd â'r ci hwnnw ar wyliau dramor os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

[8] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: Y Bil Lles Anifeiliaid (Mewnforio Cŵn, Cathod a Ffuredau), Mai 2025, paragraff 38
[9] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 2 Gorffennaf 2025

**Casgliad 2.** Rhaid craffu'n ofalus ar unrhyw reoliadau a wneir o dan y Bil hwn, os caiff ei basio, er mwyn osgoi atal anifeiliaid sydd wedi cael llawdriniaeth gyfreithlon neu sydd wedi cael eu cam-drin ond sydd wedi'u hachub a'u hailgartrefu rhag teithio.

**Argymhelliad 1.** Dylai Llywodraeth Cymru roi gwybod i'r Pwyllgor hwn a'i olynydd am unrhyw fwriad i ddefnyddio'r pwerau gwneud rheoliadau y darperir ar eu cyfer yn y Bil.